O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 561 (Cy. 130)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Abergwaun i Aberteifi, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *2 Mehefin 2020* |
| *Yn dod i rym* | *8 Mehefin 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Abergwaun i Aberteifi, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 8 Mehefin 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**); a

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

  (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

  (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 8 Mehefin 2020 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i’r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i’r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i’r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**7.**—(1) Ni fydd y cyfyngiadau a’r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Atal Dros Dro**

**8.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 2 Mehefin 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Terfyn Cyflymder 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 364 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag Old Newport Road, Cwm Abergwaun hyd at bwynt tua 1.3 cilometr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr C3163 i Frynhenllan, Dinas.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt tua 1.2 cilometr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr C3163 i Frynhenllan, Dinas hyd at bwynt 100 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â'r U3141 Ffordd Bedd Morris, Trefdraeth.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 185 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r U3447 Feidr Bentick, Trefdraeth hyd at bwynt 245 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr U3195 yn Felindre Farchog.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 52 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr U3195 yn Felindre Farchog hyd at bwynt 340 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4332 yn Eglwyswrw.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 274 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4332 yn Eglwyswrw hyd at ei chyffordd â chylchfan yr A487/A478 yn Aberteifi.

**ATODLEN 2**
**Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Sgwâr Abergwaun hyd at bwynt 364 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag Old Newport Road, Cwm Abergwaun.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt tua 1.3 cilometr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr C3163 i Frynhenllan, Dinas hyd at bwynt tua 1.2 cilometr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â'r U3141 Ffordd Bedd Morris, Trefdraeth hyd at bwynt 185 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r U3447 Feidr Bentick, Trefdraeth.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 245 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr U3195 yn Felindre Farchog hyd at bwynt 52 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 340 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4332 yn Eglwyswrw hyd at bwynt 274 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

**ATODLEN 3**
**Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

Y darn o'r gefnffordd yng Nghwm Abergwaun sy'n ymestyn tua'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4313 Hamilton Street hyd at Parc y Morfa Farm.